Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap Samplo

## Adolygiad o Chwarter 4 2016/17 (Ion - Maw 2017)

## Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

## Adborth a Chanfyddiadau Aelodau Panel

**Ebrill 2017**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .......... 2
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg .......... 2
3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel .......... 2
4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel blaenorol .......... 3
5.0 Achosion o ymosodiadau ar swyddogion heddlu – drwgdybiedigion ifainc .......... 4
5.1 Arsylwadau .......... 4
6.0 Achosion o ymosodiadau ar swyddogion heddlu – drwgdybiedigion sy'n oedolion .......... 6
6.1 Arsylwadau .......... 6
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn .......... 8
7.1 Arfer da .......... 11
7.2 Meysydd ar gyfer Gwella .......... 11
8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y dyfodol .......... 11

## 1.0 Trosolwg

Yng nghyfarfod y Panel Craffu ar Waredіadau y Tu Allan i'r Llys a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2017, adolygodd aelodau ddetholiad o ymosodiadau ar swyddogion heddlu yr ymdriniwyd â nhw drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 10 achos. Roedd 4 yn ymwneud â drwgdybiedigion a oedd yn bobl ifainc, ac roedd 6 yn ymwneud â drwgdybiedigion a oedd yn oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Cytunodd yr aelodau ar faes ffocws ar gyfer y cyfarfod. Maen nhw'n derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis gan y Cadeirydd Panel. Yna, mae'r Panel yn cwrdd i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, dod i gasgliad. Wrth benderfynu pa gategori y mae'r achos yn syrthio iddo, dylai'r panel ystyried y meini prawf canlynol:

- barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr
- cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu
- y rheswm ar gyfer y penderfyniad a'r canlyniad
- yr effaith bosibl ar y gymuned
- amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd
- dewisiadau amgen posibl a allai fod ar gael potential

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â'r polisi
- Defnydd priodol gydag amheuaeth aelodau
- Defnydd amhriodol neu'n anghyson â'r polisi
- Y Panel yn methu â dod i gasgliad

## 3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Medraf i ________________________________________ (printiwch eich enw) gadarnhau fy mod i wedi darllen yr adroddiad, ac mae'n cynrychioli'r farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplo ar 25 Ebrill 2017 yn llawn.

Llofnod: __________________________________

Dyddiad: ____________________________________

## 4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel blaenorol

O ganlyniad i waith y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau gweithredu canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Mae pob aelod Panel wedi derbyn polisïau gwarediadau y tu allan i'r llys cyfredol.
- Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Panel i gynnwys mecanweithiau adrodd ac olrhain camau gweithredu.
- Mae cynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi rhoi adborth i swyddogion mewn perthynas ag argymhelliad i ddileu rhybudd.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi adolygu eu canllawiau ar gyfer troseddau rhyw ieuenctid ac yn ystyried adolygiad o bob achos o'r fath.
- Mae dwy drosedd y teimlwyd eu bod wedi'u gwaredu'n amhriodol wedi'u dileu.
- Unionwyd y cofnod ar gyfer trosedd yr ystyriwyd ei fod wedi'i gofnodi'n amhriodol.

## 5.0 Achosion o ymosodiadau ar swyddogion heddlu – drwgdybiedigion ifainc

Roedd dau o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd wedi'u trin drwy Ddatrysiadau Cymunedol Ieuenctid, roedd un unigolyn a ddrwgdybiwyd wedi derbyn rhybudd, ac roedd un wedi derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid. Roedd asesiadau aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 3 |
| Priodol gydag amheuon | 1 |
| Amhriodol | 0 |

### 5.1 Arsylwadau

Manylir arsylwadau aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 1**

Gwnaed arsylwad bod canllawiau ACPO yn nodi mai 3 yw'r sgôr difrifoldeb ar gyfer ymosodiad ar swyddog heddlu bob tro, a'r canlyniad fyddai cyhuddiad. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, teimlwyd na fyddai hynny o fudd i'r cyhoedd, felly cytunodd yr aelodau Panel bod y canlyniad yn briodol.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 2**

Ystyriodd yr aelodau panel bod y drwgdybiedig wedi'i drin yn briodol oherwydd roedd angen cymorth arno drwy ymyrraeth.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 3**

Holodd yr aelodau Panel pa un ai a oedd yr ymosodiad yn fwriadol (roedd y drwgdybiedig wedi pori yn wyneb y swyddog). Roedd rhai aelodau'n ystyried bod datrysiad cymunedol wedi bod yn rhy drugarog o bosibl. Roedd y sgôr difrifoldeb wedi'i leihau o dros 1 pwynt, sydd y tu allan i'r polisi, fodd bynnag, roedd yr aelodau'n deall y rheswm am y penderfyniad hwn. Trafododd yr Aelodau'r achos

yn fanwl, gyda barn gymysg o ran sut yr ymdrinnir â phoeri o ran cydbwyso budd y cyhoedd ag atal troseddu yn y dyfodol. Nodwyd y byddai'n ddiddorol edrych ar gyfraddau aildroseddu troseddwyr sy'n poeri. Roedd yr Aelodau'n ystyried bod poeri'n fwy o broblem ymysg pobl ifainc, ac y gallai gwaith drwy gyfryngau cymdeithasol helpu i godi ymwybyddiaeth ac atal pobl ifainc. Adlewyrchodd yr aelodau Panel y gallai mwy fod wedi'i wneud i gefnogi'r dioddefydd yn yr achos hwn, a bod angen trin swyddogion heddlu sydd wedi dioddef ymosodiad yn yr un modd ag unrhyw ddioddefydd arall. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cynllun saith pwynt ar gael ar gyfer ymdrin ag ymosodiadau ar swyddogion heddlu, ac y byddai'n cael ei ddosbarthu. Cytunwyd y byddai'r gwahanol farn a fynegwyd gan aelodau Panel yn cael ei fwydo yn ôl i'r swyddog â gofal.

**Cam Gweithredu 1**

Rhoi adborth i'r swyddog sydd yng ngofal achos 3 gyda barn aelodau Panel mewn perthynas â'r penderfyniad i leihau'r sgôr matrics difrifoldeb.

**Cam Gweithredu 2**

Rhannu cynllun saith pwynt ar gyfer ymdrin ag ymosodiadau ar swyddogion heddlu gydag aelodau eraill.

**Asesiad Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 4

Er bod yr aelodau'n ystyried bod y canlyniad yn briodol, teimlwyd y dylid fod wedi cynnwys mwy o gysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl cyn gwneud y penderfyniad.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 3**

Rhoi adborth i'r swyddog sydd yng ngofal achos 4 mewn perthynas â mwy o gyfathrebu gyda gwasanaethau iechyd meddwl.

## 6.0 Achosion o ymosodiadau ar swyddogion heddlu – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd yr aelodau Panel 6 achos oedolion. Roedd pob un ohonynt wedi'u trin drwy rybudd. Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau Aelodau | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Priodol | 3 |
| Priodol gydag amheuon | 0 |
| Amhriodol | 4 |
| Amherthnasol | 1 |

### 6.1 Arsylwadau

Manylir arsylwadau aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 5**

Nododd yr aelodau gyfeiriad at euogfarn flaenorol o fewn y ffeil na ddangoswyd adeg gwiriad ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Roedd yr aelodau'n ystyried bod y gwarediad yn briodol yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 6**

Roedd tri throsedd ymosodiad ar swyddog heddlu wedi'u cofnodi mewn perthynas â'r achos hwn. Roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf nad oedd gwarediad y tu allan i'r llys yn briodol, er bod y rheswm yn fanwl iawn. Ni chysylltwyd â'r swyddogion a oedd yn ddioddefwyr, fodd bynnag, roedd eu cyfrifon yn nodi y byddai'n well ganddynt gyhuddiad. Hefyd, holodd yr aelodau am briodoldeb cyfeiriad o fewn y penderfyniad y dylai fod "hawl" gan y troseddwr i rybudd. Er bod yr oblygiadau o ran adnoddau wedi'u nodi, ystyriwyd nad oedd y broses o adrodd am droseddau ei gilydd yn arfer gorau.

**Asesiad Panel: Gwarediad amhriodol am y tri throsedd**

**Achos 7**

Roedd yr Aelodau'n ystyried bod y canlyniad yn briodol oherwydd ymddiheurodd y drwgdybiedig yn syth, ac roedd y drosedd yn fân.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 8**

Er bod y drwgdybiedig wedi ymddangos yn edifar ac nid oedd euogfarnau blaenorol ganddo, nododd yr Aelodau bod amgylchiadau'r digwyddiad yn ymddangos yn ddigon difrifol i arwain at rybudd amodol o leiaf. Roedd y drwgdybiedig wedi brwydro gyda swyddogion am bum munud o leiaf. Yn ystod yr amser hwnnw, roedd wedi pwno swyddog ar gefn ei ben, a loriodd y swyddog. Defnyddiwyd chwistrell PAVA, ond ni chafodd lawer o effaith, o bosibl oherwydd bod y drwgdybiedig dan ddylanwad. Yn ddiweddarach, daethpwyd o hyd i gyffur dosbarth A ym meddiant y drwgdybiedig. Awgrymodd yr Aelodau y byddai o leiaf rhybudd amodol wedi sicrhau bod y drwgdybiedig wedi mynychu gwasanaeth dargyfeiriol.

**Cam Gweithredu 4**

Rhoi adborth i'r swyddog yng ngofal achos 8 mewn perthynas â'r defnydd o rybuddion amodol i gyfeirio drwgdybiedigion i wasanaethau dargyfeiriol priodol.

**Asesiad Panel: Amhriodol**

**Achos 9**

Ystyriodd aelodau Panel bod swyddogion wedi ymdrin â'r drwgdybiedig, a oedd yn agored i niwed, yn sympathetig, gan nodi bod euogfarnau blaenorol yn ymwneud ag alcohol. Oherwydd nad oedd y drwgdybiedig wedi cyfaddef yn llawn i'r drosedd, doedd dim cyfle i gyhoeddi rhybudd amodol i sicrhau ei fod yn mynychu rhaglen ddargyfeiriol.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 10**

Nid oedd yr achos hwn yn briodol i'r Panel ei ystyried oherwydd roedd y drwgdybiedig wedi'i gyhuddo o dair trosedd. Cadarnhawyd bod angen diweddaru'r cofnod i sicrhau nad oedd yr achos yn dangos fel gwarediad y tu

allan i'r llys. Fodd bynnag, holodd yr Aelodau ynghylch pa un ai a oedd troseddau posibl yn erbyn staff yr ysbyty a oedd yn ymdrin â'r drwgdybiedig wedi'u trin yn briodol.


| **Cam gweithredu 5**<br><br>Diweddaru cofnod achos 10 ar system yr heddlu er mwyn sicrhau bod y canlyniad yn cael ei arddangos yn gywir. |
| --- |

| **Cam gweithredu 6**<br><br>Hyfforddiant dalfa i gynnwys ystyried troseddau yn erbyn staff ysbyty pan mae swyddogion wedi'u galw i gynorthwyo â chleifion treisgar. |
| --- |

**Asesiad Panel: Amherthnasol**

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn


Mae'r Panel wedi ystyried amrediad o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.





O'r 147 achos a archwiliwyd rhwng Ebrill 2013 ac Ionawr 2017, aseswyd bod 48% ohonynt yn briodol, 29% yn amhriodol, 21% yn briodol gydag amheuon, ac mewn 2% o'r achosion, methodd y panel â dod i gasgliad.

Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch y Panel yn ystod y cyfnod Tachwedd 2013 i Ebrill 2017.


Ar y cyfan, bu gostyngiad yn nifer yr achosion y mae'r Panel wedi'u hystyried yn amhriodol, a chynnydd yn y rhai sy'n cael eu hystyried yn warediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.



Mae’r graff isod yn dangos crynodeb yn ôl math o drosedd fel canran o’r achosion a ystyriwyd.




Mae’r graff canlynol yn arddangos gwir nifer yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn ganlyniadol y Panel.



### 7.1 Arfer da

Mae sawl enghraifft o arfer da wedi'i nodi o ganlyniad i waith y Panel hyd yn hyn:

- Yn gyffredinol, mae swyddogion yn ymdrin â drwgdybiedigion yn briodol, gan adnabod y rhai a allai elwa o ymyrraeth a chefnogaeth yn hytrach na chyhuddiadau troseddol.
- Mae'r gwaith a gyflawnir gan Swyddfeydd Ieuenctid yn drylwyr er mwyn cefnogi pobl ifainc i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.

### 7.2 Meysydd ar gyfer Gwella

Nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gwella o ganlyniad i waith y Panel hyd yn hyn:

- Dylid annog y defnydd o Rybuddion Amodol lle bo hynny'n briodol.
- Mae angen i swyddogion dalfeydd wella eu dealltwriaeth o effaith deddfwriaeth gyfredol, a newidiadau mewn deddfwriaeth, wrth gyhoeddi rhybuddion.
- Mae angen i swyddogion dalfeydd ddeall pwysigrwydd ceisio cyngor GEG cyn cyhoeddi rhybuddion lle bo hynny'n briodol.
- Mae angen i swyddogion dalfeydd ddeall pwysigrwydd cynnwys digon o resymwaith i gefnogi eu penderfyniadau, yn enwedig pan fyddant yn gwyro o'r polisi. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau o gwmpas cwblhau 'Matrics Difrifoldeb Oedolion ACPO', sy'n nodi'r dewis gwarediad priodol.
- Dylid rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'n well er mwyn cefnogi'r rheswm dros benderfyniadau.

Mae nifer o'r meysydd uchod ar gyfer gwella'n cael eu trin drwy godi ymwybyddiaeth ymysg goruchwylwyr a chyflwyniadau ychwanegol o fewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu; fodd bynnag, gall ceisio cyngor GEG a rhoi rhesymau digonol dros benderfyniadau dal gael eu cynnwys mewn sawl achos.

## 8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y dyfodol

Yn dilyn adborth gan Fwrdd Plismona 24 Ebrill 2017 mewn perthynas â phryder cyhoeddus, cytunodd yr aelodau i ystyried gwarediadau y tu allan i'r llys mewn perthynas â meddu ar gyffuriau yng nghyfarfod nesaf y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.